Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol **Atodiad 2**

Penderfynodd y Grŵp Buddsoddi Strategol wahodd ceisiadau yn unol â'r dyraniadau bloc y cytunwyd arnynt eisoes gan wasanaethau. Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu achos busnes i gefnogi eu cynigion. Fodd bynnag, cafodd y gofyniad i Benaethiaid Gwasanaeth gyflwyno eu cynigion i'r Grŵp Buddsoddi Strategol ei hepgor.

Cafodd pob cais ei gyflwyno gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Ceir manylion am y dyraniadau arfaethedig yn Atodiad 1 ac mae crynodeb ohonynt fel a ganlyn:

- Mae dyraniad o £240,000 yn cael ei argymell ar gyfer Mân Addasiadau, Offer Cymunedol a Theleofal. Targedir y cyllid hwn at alluogi'r henoed a'r anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

- Y bwriad yw dyrannu £1.2 miliwn i gefnogi Cymorth Tai Sector Preifat. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn bennaf ar ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- Mae'r cynigion cyfalaf cynnal a chadw ysgolion ac adeiladau nad ydynt yn ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel Cael Gwared ar Asbestos, Gwaith Asesu Risg Tân, Cydraddoldeb ac ati. Argymhellir bod £3.743 miliwn yn cael ei ddyrannu i Waith Cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion. Bwriedir hefyd dyrannu £1.449 miliwn i waith cyfalaf cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn ysgolion. Argymhellir ymhellach bod y Penaethiaid Gwasanaeth priodol yn pennu yr union ddyraniadau i'r gwaith sydd ei angen, yn nhrefn blaenoriaeth. Mae'r dyraniadau llawn a fwriedir yn bodloni'r gwaith sydd â'r flaenoriaeth mwyaf a nodwyd ar draws yr ysgolion ac adeiladau nad ydynt yn ysgolion.

- Ar 25 Ionawr 2022 fe gymeradwyodd y Cyngor £235,000 ar gyfer Priffyrdd fel rhan Fuddsoddiad mewn Blaenoriaethau 2022/23. Bydd hyn yn caniatáu gwariant cyfalaf o £4.000m.

- Yn ogystal â hyn, bwriedir dyrannu dyraniad bloc o £710,000 ar gyfer atgyweiriadau strwythurol ac atgyweiriadau eraill, gan gynnwys cynnal a chadw priffyrdd, goleuadau stryd a phontydd. Hefyd wedi'i gynnwys o fewn yr argymhelliad hwn mae £403,000 pellach ar gyfer atgyweirio strwythurau pont. Dyma chweched flwyddyn Prosiect Ôl-Groniad Strwythur Priffyrdd deng mlynedd arfaethedig.

- Argymhellir dyraniad o £324,000 i gynnal gwelliannau o ran diogelwch ar y ffyrdd.

- Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell cynnal y dyraniad a neilltuwyd ar gyfer unrhyw argyfyngau annisgwyl, sef £0.5 miliwn, yn unol â 2021/22.